**Cofnodion Drafft Grŵp Ecosystemau Rhostir a Glaswelltir Cymru**

Cyfarfod 5: 2il Mawrth 2010 – Ymddiriedolaeth Natur Swydd Amwythig.

Yn bresennol:
Carrie Rimes CCGC (CR)
Stuart Smith CCGC (SS)
Charles Morgan PONT (CM)
Helen Buckingham YG  (HB)
Juliet Hynes PBC (JH)
Julian Jones RWT ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru (JJ)
Jan Sherry CCGC (JS)
Ivy Berkshire Flora locale (IB)
Sion Brackenbury Tir Comin Gŵyr a D a S Abertawe (SB)
Caroline Wilson SNP (CW)

Ymddiheuriadau:
Richard Evans LlCC (RE)
Dave Lamacraft RSPB (DL)
Trevor Dines Plantlife (TD)
Mike Howe Parc Cenedlaethol Penfro (MH)

| Eitem | Trafodaeth | Cam Gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **1. Ymddiheuriadau** | Gweler uchod | | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol, y diweddaraf ar gamau gweithredu** | Oherwydd prinder amser i fynd drwy'r agenda, rhoddir diweddariadau gweithredu dros yr ebost. | 1. Pawb i anfon diweddariadau ar gamau gweithredu cyfarfod 4 i JH | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **nad ydynt yn cael sylw isod** | | | |
| **3. Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer Rhostir yr Iseldir** | Bu beirniadaeth gyffredinol nad oes digon o weithredu ar lawr gwlad mewn llawer o'r cynlluniau gweithredu, e.e. gwaith ar SoDdGA. Unwaith y bydd cronfa ddata camau gweithredu CCGC yn barod gallwn gael allbrint o'r holl gamau gweithredu ar gyfer pob cynefin. Dylem wedyn allu gweld pa gamau sydd ar goll neu y mae angen eu haddasu, a chwilio am broblemau generig o fewn neu ar draws cynefinoedd.<br><br>Mae angen i grŵp Canlyniad 21 oruchwylio pwy sy'n gweithredu ar y camau yng nghronfa ddata camau gweithredu CCGC. Dylai hefyd asesu'r costiadau o ran y cytundebau Adran 15 sy'n ofynnol i roi'r camau gweithredu ar waith. | 2. HB i lunio rhestr o'r materion ddylai fynd i'r cyfarfod Canlyniadau 21 nesaf a briffio Reg (cynrychiolydd RSPB) gan na allai HB fod yn bresennol.<br><br>3. JS ac SS, ychwanegu camau i'r cynlluniau, yn cynnwys gwaith ar safleoedd anstatudol, 2020 yn darged o bosib er gwireddu cyflwr ffafriol o fewn ardaloedd â blaenoriaeth a 2026 y tu allan i'r ardaloedd hynny.<br><br>4. newid geiriad cam gweithredu 3 Glastir i "datblygu cynllun" LlCC | |
| | O safbwynt Canlyniad 21 Strategaeth Amgylcheddol Cymru, sef sicrhau bod pob safle (yn cynnwys rhai anstatudol) mewn cyflwr ffafriol erbyn 2026, cytunwyd ei bod yn bwysig gweithio ar safleoedd 2[il] haen yn ogystal â SoDdGA oherwydd, er enghraifft, ni fyddai llawer o grwpiau tir comin yn fodlon cael dim i'w wneud â Glastir. Mae angen inni gynnwys cam gweithredu ar gyfer | 5. JS i drafod gyda David Parker<br><br>6. Pawb i ddefnyddio cyfarfod nesaf y Grŵp i ddechrau edrych ar fapio. Angen cael | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | safleoedd ail haen yn y cynllun gweithredu fel bod cyrff dyfarnu grantiau yn sylweddoli eu bod yr un mor bwysig.<br><br>Awgrymwyd y gallem nodi ardaloedd allweddol â blaenoriaeth i bob cynefin a rhywogaethau cysylltiol, wedi'u seilio o gwmpas mapiau Glastir a gwaith cysylltedd Jim Latham, ac y gallai hyn fwydo i'r gwaith ar Ranbarthau Amgylchedd wedi'u Rhwydweithio. Datblygu map i Gymru gyfan a'i rannu wedyn i ardaloedd LABP i'w helpu i ganolbwyntio ar flaenoriaethau gwaith. Hefyd, mae angen cyd-drefnu ar draws y grwpiau ecosystemau a rhywogaethau er mwyn cytuno ar flaenoriaethau ar draws pob cynefin a rhywogaeth i bob ardal LBAP. Cynnwys safleoedd Statudol ac Anstatudol a bwydo i gynllunio strategol (Rhanbarthau Amgylchedd wedi'u Rhwydweithio a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol – sydd newydd ei gyhoeddi gan y Gweinidog). Mae'n hanfodol cael y bobl rhywogaethau i gyfrannu hefyd. | cymaint â phosib o ddata at ei gilydd ar gyfer y cyfarfod hwn.<br><br>7. JJ i ddarparu mapiau sy'n cael eu dal gan yr Ymddiriedolaethau Natur. | |
| | Materion polisi o'r Grŵp Rhostir a Glaswelltir –<br><br>Pryd mae'r cylch polisi nesaf i'r Grŵp fwydo iddo; a oes sylw wedi cael ei roi i'r materion a godwyd yn flaenorol? Oes materion y mae angen mynd i'r afael â nhw o hyd, ac a oes rhai newydd i'w hychwanegu?<br>▪ Angen i PBC fynd ar ôl data synhwyro o bell cam 1<br>▪ Mater newydd – Bydd cynghorau tir comin yn gallu rheoli llystyfiant ar eu tir. Mae angen i'r grwpiau ecosystemau a rhywogaethau gael mewnbwn i system y cynghorau tir comin, ond mae tua 2 flynedd eto cyn y bydd hynny'n dechrau. Gallai fod goblygiadau i waith | 8. JH, i wirio pryd mae'r cylch polisi nesaf a gwirio statws materion blaenorol<br><br>9. Gweithredu polisi – os nad yw synhwyro o bell yn gweithio i laswelltir, angen awgrymu ffyrdd o wella'r data e.e. ariannu gwaith cadarnhau ar lawr gwlad<br><br>10. SB i lunio cwestiwn i'r grŵp polisi ar faterion | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rheoli ar safleoedd cadwraeth.<br><br>Dylai'r grŵp hwn gadw llygad ar adolygiad nesaf y Cynllun Datblygu Gwledig a bwydo i mewn pan fydd hynny'n briodol – byddai'n dda iddo gynnwys cynlluniau pori a safleoedd bach nad ydynt yn gymwys o dan Glastir; gallai eu gwneud yn gymwys i gael arian. | cynghorau tir comin a'i basio i JH a wnaiff ei anfon at y grŵp polisi, i'w godi o bosib yn y cyfarfod nesaf ym mis Mai. | |
| **4. Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer Glaswelltir yr Iseldir** | Bellach byddai Cam Gweithredu 1 yn dod o fewn y mapiau blaenoriaethau, a gellid cyfuno'r holl gamau gweithredu ar y rhestrau lleol hefyd â'r mapiau.<br><br>Dylid cysylltu gweithredu ar ddolydd llifwaddod â'r Grŵp Gwlyptiroedd – angen gweithio allan ymhle y gallem ganiatáu i ddolydd gorlifdir ehangu, dylid cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd.<br><br>Mae'n gwestiwn o hyd pa bryd mae adfer yn dod yn amod dichonadwy. Mae DEFRA newydd gychwyn ar brosiect glaswelltir yn edrych ar gerrig milltir cynnydd. Awgrymodd Sion ei bod yn haws monitro gostyngiad mewn rhywogaeth ddangosol negyddol na chynnydd mewn rhywogaeth bositif. Efallai y gallai swyddogion Glastir wneud hyn.<br><br>Awgrymodd Carrie nad oedd digon o gamau adfer ac ail-greu yn y cynllun gweithredu. Dylai mapio blaenoriaethau helpu i awgrymu ardaloedd lle dylai hyn ddigwydd. Dylai'r rhan fwyaf o gamau gweithredu adferol ddod drwy Glastir felly mae angen cam gweithredu yn y cynllun yn seiliedig ar hyn. | 11. SS ad CR i wneud newidiadau y cytunwyd arnynt i'r cynllun gweithredu ar gyfer glaswelltir.<br><br>12. SS a JS – yn y cynlluniau gweithredu, o dan asiantau cyflawni, newid Tirfeddianwyr i tirfeddianwyr/meddianwyr cyfreithiol.<br><br>13. SS a CR i wneud yn siŵr bod y grŵp yn cael gwybodaeth gyson am ganlyniadau prosiect cerrig milltir DEFRA a hysbysu LBAPs pan fydd hynny'n briodol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ar hyn o bryd mae'n anodd adrodd ar lwyddiant o ran cynyddu maint lleiniau ac adfer/ail-greu yn ymyl lleiniau sefydledig.<br><br>Cofnodion colledion cynefin – targed "dim colledion" sydd i laswelltir felly mae angen cydnabod unrhyw gynefin glaswelltir sefydledig a gollir. Mae tair prif ardal o golledion posib:<br>▪ Dylid rhoi gwybod i CCGC am golledion SoDdGA ar y gronfa ddata camau gweithredu, ond nid yw'r gronfa ddata'n cofnodi arwynebedd cynefin felly ni fydd yn hawdd cofnodi colledion ac ni fyddant yn trosglwyddo i BARS. Byddai'n rhaid cofnodi'n ychwanegol ar BARS drwy ychwanegu nod gweithredu cynnal cwmpas at bob cam.<br>▪ Colledion drwy reoli datblygu – cyfrifoldebau awdurdodau lleol.<br>▪ Dylai colledion amaethyddol gael eu cwmpasu gan Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, er bod rhai'n llithro drwy'r bylchau. Mae angen i LlCC gofnodi a chyhoeddi'r rhain | 14. JH i drafod cofnodi maint lleiniau, a lleoliad wrth ymyl lleiniau presennol, gyda thîm cymorth BARS.<br><br>15. Gweithredu polisi – angen i LlCC nodi'r ffermydd hynny nad ydynt yn trosglwyddo o Tir Gofal i Glastir gan ei bod yn debygol y bydd hyn yn arwain at broblemau yn sgil colli amodau cynefin. | |
| | Gan y byddai llawer o'r gweithredu ar gyfer glaswelltiroedd yn cael ei ddyblygu i bob cynefin glaswelltir â blaenoriaeth, cytunodd y grŵp y dylai fod un cynllun gweithredu ar y cyd i Laswelltiroedd yr Iseldir. Mae angen addasu'r daenlen i restru'r holl gynefinoedd glaswelltir unigol lle mae cam gweithredu'n gymwys i bob glaswelltir. | 16. SS, addasu'r daenlen i weithio ar gyfer y cyd-gynllun gweithredu i Laswelltir yr Iseldir. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd cynlluniau gweithredu Rhostir yr Iseldir a Glaswelltir yr Iseldir yn cael eu diweddaru a'u cylchredeg wedyn i'r grŵp erbyn diwedd yr wythnos hon (5ed Mawrth). Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau erbyn dydd Mawrth 9fed Mawrth er mwyn gallu cyflwyno'r cynlluniau erbyn dydd Mercher 10fed Mawrth. | 17. SS a JS, i gylchredeg cynlluniau gweithredu wedi'u diweddaru i'r grŵp erbyn dydd Gwener (5ed).<br><br>18. Pawb – sylwadau'n ôl erbyn dydd Mawrth (9fed) | |
| **5. Diweddariad ar brosiectau Gŵyr** | Rhoddodd Sion Brackenbury ddiweddariad ar 3 chynllun yn ymwneud â rhostir yr iseldir, glaswelltir yr iseldir, tir fferm ac ychydig o gynefin ucheldir..<br>Bioamrywiaeth ar Dir Comin: prosiect i adfer ac ailgysylltu 1063ha o gynefinoedd â blaenoriaeth gyda phwyslais arbennig ar reoli Britheg y Gors, y Gardwenynen Feinlais a'r Fritheg Frown. Mae'r prosiect wedi'i seilio ar dir comin ac mae'n cael ei arwain gan gymdeithas y porwyr gyda chymorth PONT. Mae'r prosiect wedi'i leoli i'r gogledd o'r M4 yn Sarn ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r prosiect wedi cyrraedd cam terfynol proses Biffaward, yn dilyn cais dangosol a chyflwyniad i'r panel dyfarnu.<br><br>Cefn Drum/Craig Fawr – Datblygu Ein Bioamrywiaeth: prosiect ar lefel y dirwedd wedi'i leoli i'r gogledd o Abertawe. Diben y prosiect yw adfer, cynnal a sicrhau cyflwr ar arwynebedd o 789ha o gynefin â blaenoriaeth, gan leihau darnio a hyrwyddo cysylltedd ar lefel tirwedd. Y cynefinoedd â blaenoriaeth sydd wedi'u cynnwys yw Rhostir Sych yr Ucheldir, Rhostir Gwlyb yr Ucheldir, Porfeydd Brwyn a Glaswellt y Gweunydd. Cais i WREN o dan y Gronfa Gweithredu Bioamrywiaeth.<br><br>Parc Rhanbarthol y Cymoedd – cais Bioamrywiaeth LIFE+. 8500ha o enillion bioamrywiaeth posib ar draws ardal sy'n | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymestyn o Orllewin Abertawe i Dorfaen. Yn cynnwys Cymdeithasau Cominwyr, y Comisiwn Coedwigaeth a Thirfeddianwyr. Cyfuniad o gynefin ucheldir ac iseldir â blaenoriaeth. Rhaid i'r prosiect ddangos arloesi neu arddangos a mynd i'r afael â phroblemau o arwyddocâd Ewropeaidd. Egwyddor y prosiect yw cael nifer o safleoedd arddangos ar draws Cymoedd y De, gyda phob safle'n delio â mater neilltuol e.e. tân Prosiect dan arweiniad PONT a'r dyddiad cyflwyno yw Medi 2010.<br><br>Cynigiodd SB roi cyflwyniad manwl ar unrhyw un o'r prosiectau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol os dymunir hynny. | | |
| **6. Y Diweddaraf am Glastir** | Mae'r cynllun lefel mynediad bellach yn chwilio am ganlyniad eithriadol o syml e.e. uchder porfa ond mae hyn yn rhy syml. Ymatebodd Jan gan ddweud bod y canlyniadau a awgrymwyd yn syml iawn i'w monitro beth bynnag.<br><br>Daw'r ymgynghori ynglŷn â'r lefel uwch i ben ddydd Gwener (5$^{ed}$ Mawrth), yn gynt na'r disgwyl yn wreiddiol. Pethau allweddol yr awgrymodd Dave Lamacraft fod angen eu codi:<br>▪ Ni ddylai'r ddarpariaeth hyfforddi fod yn dameidiog drwy grwpiau ecosystemau a rhywogaethau; dylai fod yn hyfforddiant iawn gan LlCC i swyddogion, wedi'i gyd-drefnu. Byddai'r grwpiau'n barod i gyfrannu at hynny wedyn.<br>▪ Maer amodau rhagnodi yn gysylltiedig â charbon o blaid plannu coed (estron – coed collddail neu gonwydd sy'n tyfu'n gyflym) ar lethrau rhedyn a phriddoedd organo-fwynol ac mae i hynny oblygiadau enfawr o ran colli ardaloedd o laswelltir a rhostir. | 19. Pawb – os oes cyfle i'ch corff chi gynnig sylwadau ar Glastir, gwnewch hynny – rhagor o fanylion am y pynciau gwrthwynebu ar gael oddi wrth Dave Lamacraft.<br>20. JJ i roi Glastir ar agenda cyfarfod Cyswllt Amgylchedd Cymru, a chael Madeleine i siarad â'r RSPB am y materion a grybwyllwyd. | CM- wedi mewnbynnu sylwadau ar sail y rhai a gyflwynodd JS drwy'r grŵp ecosystemau Tir Fferm. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Byddai adfer gorgorsydd i ddal a storio carbon yn llawer mwy priodol. Nid oes unrhyw gyllidebu carbon wedi'i wneud i ddangos y byddai unrhyw fudd o blannu coed yn amhriodol.<br>Cynhelir cyfarfod o Gyswllt Amgylchedd Cymru ar 17eg Mawrth dan gadeiryddiaeth Madeleine Havard, Awgrymodd Julian y dylid defnyddio'r cyfarfod i gyfleu gwrthwynebiad ffurfiol i'r hyn sy'n digwydd gyda Glastir, fel corff anllywodraethol cyfun. | | |
| **7. Adroddiad ar seminar planhigion gwyllt Cymru** | Daw prosiect Ivy i ben ddiwedd y mis hwn.<br><br>Cynhyrchodd y seminar nifer o argymhellion a ddylai gael eu symud ymlaen ym marn Flora Locale (FL)<br>▪ Ceisio cynyddu'r defnydd o stoc Cymreig brodorol wrth blannu mewn cynlluniau rheoli datblygu – dylid nodi rhagor o gyflenwyr o Gymru (rhai ar gael ar wefan FL). Hefyd, astudiaethau achos ar wefan FL.<br>▪ Monitro gwaith rheoli datblygu – gweithio gyda chyrff eraill i geisio arian i ddatblygu canllawiau monitro – awgrymodd JH fod IB yn edrych ar Gaerffili sy'n gobeithio monitro amodau rheoli datblygu o safbwynt ecolegol.<br>▪ Pecyn cymorth mannau gwyrdd – mae CCGC wedi datblygu pecyn cymorth sydd ar gael i'w ddefnyddio.<br>Roedd nifer o faterion hefyd i PBC a LlCC y gellid mynd â nhw i'r grŵp polisi. | 21. Pawb – rhoi gwybod i Flora Locale am unrhyw gyflenwyr eraill sy'n darparu hadau neu blanhigion o darddiad lleol<br>22. Pawb – rhoi gwybod i FL am unrhyw astudiaethau achos ychwanegol<br>23. IB – crynhoi'r materion sydd i fynd i'r grŵp polisi a'u cylchredeg i'r Grŵp hwn. | |
| **8. Diweddariad ar brosiect WWGAS** | Cynhaliwyd cyfarfod mawr gyda swyddogion CCGC i drafod manylion y prosiect. Yn anffodus, nid oedd swyddog CCGC Sir Benfro yn bresennol. Roedd timau lleol CCGC wedi cyfrannu at y rhestrau, roedd y taenlenni'n cael eu mireinio bellach a byddant ar | 24. CM i drefnu cyfarfod WWGAS ddiwedd Mai<br><br>25. HB i gylchredeg nodiadau | CM – ar waith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | eu gwedd derfynol erbyn diwedd Ebrill. Awgrymwyd cyfarfod arall ddiwedd Mai gan fod angen cadw'r bwrlwm i fynd:<br>Bydd Stuart yn siarad â Sir Gaerfyrddin<br>Jan - Ceredigion a<br>Helen – Sir Benfro.<br>Angen ystyried beth mae gofyn ei gyflawni yng nghyfarfod mis Mai.<br><br>Angen cynnwys Gŵyr, boed hynny i gysylltu â phrosiect WWGAS neu brosiect gwahanol. | o'r cyfarfod diwethaf<br><br>26. HB i anfon nodyn atgoffa (ddiwedd Mawrth) fod angen cwblhau'r taenlenni'n derfynol erbyn diwedd Ebrill<br><br>27. CM i drefnu cyfarfod Gŵyr | <br><br><br><br><br><br><br><br>CM – ar waith |
| **9. Dyddiad y cyfarfod nesaf** | Angen symud y dyddiad o 24ain Mehefin. Awgrymwyd yr wythnos yn cychwyn 12fed Gorffennaf. | 28. JH i wirio ar ba ddyddiadau y gall DL a TD fod yn bresennol gan ei bod yn bwysig eu cynnwys nhw yn y cyfarfod mapio. | |